



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Strategaeth Rheoli Risg (Drafft)

Rhagfyr 2023

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: Mawrth 2025

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae rheoli risg yn rhan annatod o reoli a llywodraethu corfforaethol da ac mae'n ganolog i drefniadau cynllunio a darparu gwasanaethau'r Cyngor. Yn y modd yma mae rheoli risg yn hanfodol i allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol sy'n helpu i wella ansawdd bywyd pobl leol a chefnogi ei gyfrifoldeb fel ceidwad arian cyhoeddus.
- 1.2 Bwriad y ddogfen yma yw pennu diben cyffredinol y fframwaith rheoli risg o fewn y Cyngor.
- 1.3 Mae rheoli risg yn fater i bawb yn y Cyngor.

2. Diben Rheoli Risg yn Rhondda Cynon Taf

- 2.1 Diben rheoli risg yn Rhondda Cynon Taf, ar lefel strategol, yw nodi a rheoli'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor wrth iddo gyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol fel y nodir yng [Nghynllun Corfforaethol 2020 – 2024](#) 'Gwneud Gwahaniaeth'. Mae risgiau strategol cytûn y Cyngor wedi'u nodi mewn Cofrestr Risgiau Strategol yr adroddir arni'n gyhoeddus. Creffir ar y Gofrestr bob chwarter yn rhan o drefniadau adrodd ar gyflawniad y Cyngor. Ar lefel weithredol, nod rheoli risg yw pennu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drefniadau cynllunio a monitro cyflawni (busnes) y Cyngor.
- 2.2 Mae'r strategaeth yma wedi'i dylunio i sicrhau bod arferion rheoli risg cadarn yn eu lle, gan gynnwys gweithdrefnau i nodi, asesu a rheoli risg yn barhaus.
- 2.3 Mae deall y risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a'u rheoli nhw mewn modd addas yn cynorthwyo â gwaith gwneud penderfyniadau ac yn cyfrannu at gyflawni ei flaenoriaethau sydd i'w gweld yn y Cynllun Corfforaethol. Dydy rheoli risg ddim yn ymwneud â materion dileu'r risg, a ddylech chi ddim cymysgu rheoli risg â gwrth risg mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn bwriadu annog arloesedd o fewn fframwaith clir.

3. Diffiniad

- 3.1 Risg yw'r ansicrwydd o ganlyniad o weithredoedd neu ddigwyddiadau, boed yn gyfle cadarnhaol neu'n fygythiad negyddol. Diffiniad y Cyngor o risg yw *'rhywbeth yn digwydd a fyddai, petai'n digwydd, yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau yn ôl y Cynllun Corfforaethol yn llwyddiannus'*.

4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o weithgareddau craidd cyffredin sy'n berthnasol i drefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer cyrff cyhoeddus ble mae angen newid:
 - Cynllunio Corfforaethol;
 - Cynllunio Ariannol;
 - Cynllunio'r Gweithlu;

- Caffael;
- Asedau;
- **Rheoli Risg**; a
- Rheoli Cyflawniad

4.2 Mae'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer y Ddeddf yma'n nodi y bydd angen i gorff cyhoeddus newid y ffordd mae'n rheoli risg. Yn adran 3 'Lle mae angen i'r newid ddigwydd' o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, caiff ei nodi:

"Bydd risgiau tymor hir a fydd yn effeithio ar gyflwyno eich gwasanaethau ond hefyd y cymunedau yr ydych yn eu galluogi i wella. "Defnyddiwch y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio i ystyried pa beryglon y gallech fod yn ddarostyngedig iddynt yn y tymor byr, canolig a hir, ynghyd â'r camau a gymerwch i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda."

4.3 Mae Cofrestr Risgiau Strategol y Cyngor yn cynnwys mesurau rheoli a chamau gweithredu sy'n bwriadu rheoli'r risgiau, ac mae'r rhain yn ymgorffori'r pum dull o weithio, sef:

- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **Gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.
- Edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Cymryd ymagwedd **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd.

5. Y Fframwaith Rheoli Cyflawniad a Rheoli Risg

5.1 Mae rheoli cyflawniad yn ymwneud â gosod cyfeiriad clir gyda mesurau llwyddiant sy'n rhoi trigolion wrth wraidd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae hyn yn cael ei wneud drwy roi trefniadau cyson a chadarn ar waith ar draws y Cyngor sy'n cefnogi cyflawniad, gwelliant a newid mewn gwasanaethau.

5.2 Mae trefniadau rheoli cyflawniad yn cynnwys monitro cyflawniad amserol a chymesur o flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, proses Hunanwerthuso Gwasanaeth blynyddol a Chynlluniau Darparu Gwasanaeth (gan ymgorffori mesurau cyflawniad a risg perthnasol). Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod staff yn gwybod beth yw eu blaenoriaethau'n unigol ac fel carfan.

5.3 Mae'r gweithdrefnau cefnogi 'mewnol' sydd gan y Cyngor mewn perthynas â chyflawni'i flaenoriaethau gwella wedi cael eu cynnwys o fewn trefniadau Cynlluniau Darparu Gwasanaeth y Cyngor.

5.4 Mae'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth yn nodi'r blaenoriaethau allweddol y mae angen eu cyflawni dros gyfnod o 12-18 mis ar gyfer pob gwasanaeth. Maen nhw'n cynnwys risgiau gweithredol mewn perthynas â chyflawni pob blaenoriaeth yn ogystal â chamau gweithredu a charreg filltiroedd yn erbyn y

cynnydd sy'n cael ei fonitro. Mae'r trefniadau yma'n helpu pob Maes Gwasanaeth i:

- cefnogi gwaith cyflawni Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r Cyngor
- dangos sut mae'r gwasanaeth yn alinio â gofynion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)
- darparu fframwaith i sicrhau bod y blaenoriaethau sy'n codi o Aseiad Corfforaethol y Cyngor yn cael sylw a chefnogi cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor yn hyn o beth; a
- galluogi'r gwasanaeth i nodi a rheoli risgiau gweithdrefnol.

5.5 Mae'r trefniadau llywodraethu ynghylch Hunanwerthusiad Gwasanaeth y Cyngor¹ a'i brosesau Cynllunio Darparu Gwasanaethau wedi'u nodi yn Nhabl 1.

Tabl 1 – Trefnau Llywodraethu: Hunanwerthusiad Gwasanaeth a Chynllunio Darparu Gwasanaethau

	Cyfrifoldeb am ddrafftio	Cyfrifoldeb am gymeradwyo	Goruchwyliaeth / her / ymgysylltu
Hunanwerthusiadau gwasanaeth	Cyfarwyddwr Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> •Prif Weithredwr (lle mae'r gwasanaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr); neu •Cyfarwyddwr Cyfadran / Cyfarwyddwr 	Prif Weithredwr / Aelod Etholedig gyda Phortffolio Cabinet
Cynllun Darparu Gwasanaethau	Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> •Prif Weithredwr (lle mae'r gwasanaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr); neu •Cyfarwyddwr Cyfadran / Cyfarwyddwr 	Aelod Etholedig gyda Phortffolio Cabinet

5.6 Mae'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â hunanwerthuso gwasanaethau a chynllunio darparu gwasanaethau'r Cyngor yn sicrhau bod prosesau adolygu, herio a chymeradwyo priodol ar waith sy'n cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau gwasanaethau a blaenoriaethau swyddogion unigol. Mae trefniadau monitro cynnydd yn gyson yn galluogi rheolwr i ddeall y risgiau o fewn y gwasanaethau, y newidiadau sy'n digwydd o fewn y gwasanaethau a pha gamau lliniaru sydd angen eu gweithredu.

6. Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg

¹Mae Hunanwerthuso Gwasanaeth yn broses flynyddol, sy'n ran o drefniadau cyflawniad y Cyngor. Mae'r broses yn galluogi gwasanaethau i gynnal gwerthusiad ffurfiol a nodi eu cryfderau, eu blaenoriaethau a'u meysydd i'w gwella sy'n llywio gwaith blynyddol [Cynlluniau Darparu Gwasanaeth](#) ac hefyd [Cynlluniau Blaenoriaethau'r Cyngor](#).

6.1 Mae gan system rheolaeth fewnol y Cyngor rôl allweddol o ran rheoli risgiau. Mae'r mesurau rheoli fewnol yn ymateb i risg.

6.2 Mae'r cysylltiadau rhwng rheolaeth fewnol a rheoli risg wedi'u nodi o fewn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 (rheoliad 4), sy'n nodi:

'Cyfrifoldeb am reolaeth fewnol a rheolaeth ariannol:

(1) Mae'r corff llywodraethu lleol yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys:

- a. trefniadau ar gyfer rheoli risg; a*
- b. rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.*

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu lleol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol.

6.3 Arferion priodol yw Cod Ymarfer yr Awdurdod Lleol ar gyfer cyfrifeg sy'n nodi:

'Bydd Awdurdod Lleol yn cyflawni'i waith o adolygu'i system rheolaeth fewnol yn unol ag arferion gorau. Mae dogfen Trefniadau Llywodraeth Da mewn Llywodraeth Leol, gafodd ei chyhoeddi gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymru, yn argymhell bod yr adolygiad yn cael ei gynnwys mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol.'

6.4 Yn ogystal â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Rheoliad 4), mewn cyd-destun Llywodraeth Leol, pwysigrwydd cynnwys rheoli risg fel dull llywodraethu allweddol o fewn Egwyddor Craidd F Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru/Trefniadau Llywodraeth Da mewn Llywodraeth Leol:

'Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn.'

Anghenion llywodraeth leol i sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraeth y mae'n ei oruchwyllo wedi gweithredu system rheoli cyflawniad effeithiol y mae modd ei chynnal ac sy'n hwyluso darparu gwasanaethau wedi'u cynllunio mewn modd effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risgiau a mesurau rheoli mewnol yn rhan bwysig a chyfannol o system rheoli cyflawniad ac maen nhw'n hanfodol o ran cyflawni'r deilliannau hyn. Dylai risgiau gael eu hystyried a'u cyfeirio yn rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.'

6.5 Mae Carfan Uwch Arweinwyr y Cyngor (SLT) wedi rhoi cyfres o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n ceisio sicrhau bod mesurau cadarn ar waith i reoli risg mewn modd effeithiol ac effeithlon er mwyn darparu'i wasanaethau. Mae Carfan Uwch Arweinwyr y Cyngor yn derbyn sicrwydd cyson gan ei ffynonellau mewnol ac allanol ynghylch cryfder ei amgylchedd rheoli mewnol.

7. Awydd am Risg

- 7.1 Mae'r Sefydliad Rheoli Risg (IRM) yn diffinio 'awydd am risg' risg fel *“the amount and type of risk that an organisation is willing to take in order to meet their strategic objectives”*. Mae datganiad awydd sy'n cael ei ddeall yn glir yn cynorthwyo'r ymwybyddiaeth o risg i'r Cyngor ac yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.
- 7.2 Mae'r Uwch Arweinwyr y Cyngor wedi cytuno ar y cyd bod y Cyngor yn bodoli mewn amgylchedd risg uchel a bod hyn yn debygol o barhau. Bydd hyn yn golygu parhau i gynnal dealltwriaeth effeithiol o lefelau risg derbynol (uchel, canolig neu isel), yn dibynnu ar eu heffaith a'u tebygolrwydd, fel bod risgiau'n cael eu blaenoriaethu a chatau lliniaru cymesur yn cael eu rhoi ar waith.

Datganiad Awydd am Risg

- 7.3 Y dull sylfaenol sy'n ategu awydd risg y Cyngor yw y bydd risgiau'n cael eu cymryd mewn modd ystyriol a rheoledig, gan sicrhau lefel derbynol o amlygiad. Lle mae cyfleoedd i'r Cyngor fod yn arloesol a / neu weithio'n wahanol, bydd y risgiau a nodwyd yn cael eu hystyried yn erbyn ystod o ffactorau gan gynnwys yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau, cyfrifoldebau cyfreithiol ac amgylcheddol a'r buddion cost ac effeithlonrwydd a ragwelir.
- 7.4 Mae'r Datganiad yn cefnogi Aelodau etholedig a swyddogion wrth wneud penderfyniadau, trwy nodi lle bydd y Cyngor yn cymryd gwahanol lefelau o risg, a pha lefelau o risg sy'n annerbyniol.
- 7.5 Mae'r Cyngor wedi defnyddio 'Nodyn Canllaw 'Awydd am Risg' Swyddogaeth Cyllid y Llywodraeth Awst 2021 i lywio ei Ddatganiad drwy:
- Nodi nifer o gategoriâu risg i gefnogi golwg gyfannol ar risgiau:
 - Strategaeth Risg
 - Risg Ariannol
 - Risgiau Darparu Gwasanaeth
 - Risgiau Cyfreithiol, Rheoleiddiol a Llywodraethu
 - Risg i Enw Da
 - Diffinio lefelau awydd am risg - ar bob lefel mae cydbwysedd rhwng risg a gwobr, gydag awydd risg 'eiddgar' yn cynnig y risg a'r wobwr uchaf a 'gwrthwynebol' yn cynnig y risg a'r wobwr isaf.
 - Eiddgar
 - Yn eiddgar i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau uwch o bosibl er gwaethaf mwy o risg.
 - Agored
 - Yn fodlon ystyried yr holl opsiynau darparu posibl a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at lwyddiant tra hefyd yn darparu

lefel dderbyniol o wobr a gwerth am arian a risg gymedrol / uchel.

- Gofalus
 - Ffafiaeth tuag at opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg ac a allai fod â photensial cyfyngedig yn unig ar gyfer gwobr.
- Lleiafysmol (Minimalist)
 - Yn ffafrio opsiynau cyflenwi busnes diogel iawn sydd â lefel isel o risg ac sydd â photensial ar gyfer gwobr gyfyngedig yn unig.
- Gwrthwynebol
 - Mae osgoi risg ac ansicrwydd yn amcan sefydliadol allweddol.

7.6 Mae'r lefelau awydd risg cymeradwy ar gyfer pob categori risg wedi'u nodi yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2 – Lefelau Archwaeth Risg

Categori'r risg	Datganiad Awydd am Risg
Strategaeth Risg	Agored – Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddyfeisio a gweithredu strategaethau uchelgeisiol yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n cefnogi trawsnewid gwasanaethau a gwelliant parhaus.
Risg ariannol – cyfalaf neu referniw, cynllunio cyllidebol ac ariannol	Gofalus - Wrth edrych ar ôl ei gyllid bydd y Cyngor yn cynllunio ac yn buddsoddi'n briodol i ddarparu gwerth da am arian; fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'n fodlon derbyn na fydd y canlyniadau ariannol a gwasanaeth bob amser fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.
Risg Cyfreithiol, Rheoleiddiol a Llywodraethu – methu â chydymffurfio â deddfwriaeth	Gwrthwynebol - Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i roi pwys mawr ar gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i awdurdod lleol ac mae ganddo archwaeth anffafriol o ran risg cyfreithiol / rheoleiddiol.
Cyflwyno Gwasanaeth – methiant neu dangyflawniad yn y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor	Agored - Bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddarparu a chynnal gwasanaethau o ansawdd uchel. Serch hynny, i wneud hynny, mae'r Cyngor yn fodlon derbyn amlygiad cymedrol i risg wrth ddarparu gwasanaethau.
Risg i enw da – bydd y cyhoedd yn colli hyder yn y Cyngor yn dilyn cyhoeddusrwydd anffafriol	Gofalus - Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cynnal enw da ac, felly, wedi gosod agwedd ofalus tuag at risg wrth gyflawni ei weithgareddau.

7.7 Bydd lefelau Awydd Risg y Cyngor yn cael eu hadolygu'n barhaus yn rhan o ystyriaeth o'r Strategaeth Rheoli Risg yma.

8. Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- 8.1 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol y Cyngor. Mae datganiad o ddiben y Pwyllgor Archwilio ac adrannau perthnasol ei Gylch Gorchwyl yn nodi:

Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth mewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn goruchwylio'r adroddiadau ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ac effeithlon ar waith.

- 8.2 Mae adran 'C' cylch gorchwyl y Pwyllgor yn nodi:

Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ynghylch pa mor addas yw trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, a darparu'r cyfle i gynnal trafodaeth uniongyrchol ar y materion yma gyda'r archwiliwr/archwilwyr.

- 8.3 Mae rheolaeth a chraffu ar risgiau strategol y Cyngor wedi'u hintegreiddio i drefniadau adrodd ar gyflawniad y Cyngor trwy gynlluniau gweithredu blaenoriaeth ei Gynllun Corfforaethol. Caiff risgiau eu nodi, eu hasesu a'u sgorio gan ddefnyddio matrices o effaith a thebygolrwydd, ac mae'r broses sgorio yn arwain at ddyrannu sgôr i'r risg.
- 8.4 Caiff risgiau strategol y Cyngor eu casglu at ei gilydd ar Gofrestr Risgiau Strategol sy'n berchen i Garfan Uwch Arweinwyr y Cyngor ac sy'n cael eu monitro ganddyn nhw.
- 8.5 Caiff risgiau gweithredol eu monitro a'u rheoli ar wahân yn rhan o drefniadau Cynllunio Darpariaeth y Cyngor.

9. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

- 9.1 Er mwyn sicrhau bod trefniadau rheoli risg y Cyngor yn cael eu cyflawni, caiff swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol eu nodi yn Nhabl 3.

Tabl 3 – Swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol

Y Cabinet	<ul style="list-style-type: none">• Cymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor (gan gynnwys archwaeth risg) ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r Strategaeth yn barhaus.• Cymeradwyo'r Gofrestr Risgiau Strategol.• Monitro cynnydd o ran rheoli Risgiau Strategol.• Dal Uwch Arweinwyr y Cyngor yn atebol am reoli risgiau'n effeithiol.
-----------	---

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefnau rheoli risg effeithiol ar waith (gan gynnwys adolygu a herio trefniadau a risgiau strategol). • Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol.
Uwch Arweinwyr y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Pennu Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor (gan gynnwys archwaeth risg) i'w hystyried / cymeradwyo gan y Cabinet, a'i hadolygu'n barhaus. • Gwneud trefniadau i ddarparu Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor (gan gynnwys nodi risgiau strategol, camau gweithredu i reoli risgiau strategol a threfniadau monitro / adrodd). • Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol.
Swyddog Materion Adran 151	<ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan weithredol ym mhob penderfyniad busnes perthnasol er mwyn sicrhau bod goblygiadau, cyfleoedd a risgiau tymor byr, canolig a hir yn cael eu hystyried yn llawn. • Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol.
Perchnogion Risg (Risgiau Strategol a Gweithredol)	<ul style="list-style-type: none"> • Yn atebol am reoli pob agwedd ar risgiau a neilltuwyd, gan gynnwys pennu, awdurdodi, gweithredu, monitro / diweddarau ac adrodd ar fesurau rheoli a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r bygythiadau a gwneud y gorau o'r cyfleoedd.
Rheolwyr y Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi: <ul style="list-style-type: none"> ○ Uwch Arweinwyr y Cyngor wrth nodi Risgiau Strategol; a ○ Perchnogion Risg gyda threfniadau rheoli, monitro ac adrodd ar Risgiau Strategol a Gweithredol. • Rhoi trefniadau rheoli risg effeithiol ar waith ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb i sicrhau bod amlygiad y Cyngor ar lefel dderbyniol. • Hyrwyddo ac arddangos yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sy'n cefnogi cymryd risgiau gwybodus ac ystyriol, ochr yn ochr â llinellau atebolrwydd clir.
Archwilio Mewnol	<ul style="list-style-type: none"> • Asesu effeithiolrwydd y strategaeth rheoli risg (a threfniadau cysylltiedig) a'r amgylchedd rheoli o ran lliniaru risg. • Cefnogi a hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol.
Pob aelod o staff	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi nodi risgiau a chyfrannu at eu rheoli, fel y bo'n briodol.

10. Rheoli Risg – Cysylltiadau â disgyblaethau eraill

10.1 Mae rheoli risg yn cynnwys proses o leihau'r effaith a/neu'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd.

10.2 Caiff sawl disgyblaeth ei gweithredu ar draws y Cyngor er mwyn ceisio cyflawni hyn:

- Mae modd defnyddio dulliau caffael i reoli risgiau trwy benodi contractwyr i gyflawni gwasanaethau ar ran y Cyngor ac mae modd defnyddio contractau er mwyn trosglwyddo risg(iau) a nodwyd.
- Mae modd defnyddio yswiriant er mwyn rheoli risgiau (er enghraifft, yr effaith ariannol posibl o risg yn cael ei lliniaru gan ddefnyddio polisi yswiriant).

- Mesur y mae modd ei ddefnyddio i helpu rheoli effaith digwyddiad a all godi yw cynllun parhad busnes.

11. Partneriaethau

- 11.1 Mae gweithio mewn partneriaeth yn chwarae rhan fwyfwy pwysig o ran darparu'r gwasanaeth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar y cyfleoedd sy'n cael eu darparu trwy'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gweithio ar y cyd.
- 11.2 Mae gweithio mewn partneriaeth fel arfer yn golygu ymrwymo adnoddau fel amser a/neu gyllid uniongyrchol er mwyn datblygu a chyflawni'r deilliannau dymunol. Mae'n bosibl na fydd hyn yn hawdd, ac er bod yna gyfleoedd cysylltiedig mae yna risgiau hefyd. Mae'n bwysig deall a rheoli'r rhain o ran eu bod nhw'n effeithio ar y bartneriaeth a'r Cyngor.

Manteision posibl o ran gweithio mewn partneriaeth

- Cydlynu ac integreiddio gwell o ran darparu'r gwasanaeth i'r defnyddwyr.
- Hyblygrwydd ac arloesedd, llunio polisïau gwell a gweithredu datrysiadau mwy credadwy na'r rheiny y mae modd eu cyflawni gan asiantaethau unigol.
- Cyfathrebu a dulliau rhannu gwybodaeth well.
- Defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon i ddarparu gwerth am arian, gan gynnwys mynediad i sgiliau ac arbenigedd ychwanegol.
- Capasiti mwy i gynllunio a datblygu datrysiadau, gan gynnwys cyfuno arbenigedd ac adnoddau.

Risgiau posibl o ran gweithio mewn partneriaeth.

- Diffyg diben clir neu osod amcanion a disgwyliadau afrealistig.
- Ddim yn effro i faint y goblygiadau cyllid a chyfreithiol, megis torri dyletswydd statudol neu fethu ag arfer ei swyddogaethau statudol.
- Ymrwymyadau cyllid ac amser sy'n gorbwyso buddion posibl.
- Diwylliannau, ymddygiadau a pholisïau gwahanol neu sy'n gwrthdaro ac sy'n arwain at wrthdaro, drwgdybiaeth, cam-driniaeth neu reolaethu.
- Diffyg eglurder mewn perthynas â disgwyliadau gan bartneriaid a chyfrifoldebau.
- Llywodraethu a chraffu annigonol dros gynllunio a gwneud penderfyniadau a rheoli cyllid, risg a chyflawniad.

12. Prosiectau

- 12.1 Mae rheoli risg yn diffinio sut bydd risgiau yn cael eu rheoli yn ystod oes cynllun neu raglen. Mae'r trefniadau yma'n cydnabod bygythiadau posibl a bygythiadau go iawn o ran cyflawni cynllun yn llwyddiannus a phennu'r gweithgareddau sydd eu hangen i'w lleihau neu i gael gwared arnyh nhw.

12.2 Mewn achosion lle mae partner a/neu gyflenwyr yn rhan o'r trefniadau, mae'n hanfodol bod gyda nhw ddealltwriaeth gyffredin o risgiau a chynlluniau cytûn ar gyfer eu rheoli nhw.

13. Rheoli Risg – Trosolwg

13.1 Mae Pecyn Cymorth wedi cael ei ddatblygu er mwyn rhoi cyfarwyddyd i reolwyr wrth gyflawni gweithgareddau rheoli risg ar bob lefel ar draws y Cyngor. Mae'r Pecyn Cymorth yn ddogfen ategol ar gyfer y Strategaeth yma.

13.2 Mae Ffigwr 1 yn dangos y camau sydd ynghlwm â strategaethau rheoli risg strategol y Cyngor.

Ffigwr 1 - Trefniadau Rheoli Risg Strategol

